

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 93/2025

DYDDIAD CYHOEDDI: 30/09/2025

Y Warrant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses

Crynodeb

1. Nodau a methodoleg yr ymchwil


- 1.1 Nod y [Warrant i Bobl Ifanc](#) (y Warrant) yw cynnig cymorth i bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Mae Cymru'n Gweithio yn darparu un llwybr syml i bobl ifanc gael mynediad i'r Warrant, tra bod cynnig cymorth y Warrant yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth eang o raglenni a gwasanaethau gan gynnwys Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+), Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) a Busnes Cymru. Mae'r [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid](#) (y Fframwaith) yn ategu'r Warrant. Ei nod yw cefnogi'r gwaith o adnabod yn gynnar y bobl ifanc 11 i 18 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a chynnig mathau priodol o gymorth. Nod y Warrant a'r Fframwaith yw cyfrannu at ddwy o'r cerrig milltir cenedlaethol i Gymru:
 - bydd 'o leiaf 90 y cant o'r rhai 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' ac
 - i 'ddileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynnyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).
- 1.2 Nod y gwerthusiad oedd adolygu cynllun, gweithredu, a chyflawni'r Warrant yn erbyn ei bwriad strategol a'i chanlyniadau a fwriedir. O ystyried ei fod yn ategu'r YPG, roedd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys adolygiad o'r Fframwaith. Defnyddiwyd dull gwerthuso sy'n seiliedig ar theori, wedi'i lywio gan [Asesiad Gwerthusadwyedd](#) (Llywodraeth Cymru, 2025a). Defnyddiwyd y Model COM-B o newid ymddygiadol (a amlinellir yn y testun mewn blwch isod) fel fframwaith damcaniaethol.

Y Model COM-B o newid ymddygiadol

Nod y Warant yw cynyddu cyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg neu hyfforddiant neu sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Un amod angenrheidiol ar gyfer hyn yw newid yn ymddygiad (rhai) pobl ifanc. Er mwyn archwilio hyn, defnyddiodd y gwerthusiad y model COM-B (Galluogrwydd –Cyfle – Cymhelliant) o newid ymddygiadol (Michie et al., 2011). Fel y dengys Ffigur 4.1 isod, mae'r model yn awgrymu bod ymddygiad person ifanc, fel chwilio am waith yn effeithiol a gwneud cais am swyddi, yn gofyn am y canlynol:

- y gallu - neu'r **galluogrwydd** - i gyflawni'r ymddygiad (er enghraifft, meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r hunaneffeithiolrwydd neu'r hunan-gred sy'n ofynnol);
- y bwriad - neu'r **cymhelliant** - i gyflawni'r ymddygiad; a
- absenoldeb cyfyngiadau amgylcheddol (er enghraifft, peidio â wynebu rhwystrau fel diffyg gofal plant) neu, i'r gwrthwyneb, cael y **cyfle** i gyflawni'r ymddygiad (Michie et al., 2011).

Ffigur 1.1. Y Model COM-B o newid ymddygiadol



Ffynhonnell: Michie et al. (2011) atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr awdur

1.3 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymchwil gan gynnwys:

- adolygiad desg o ffynonellau eilaidd, gan gynnwys: dogfennau sy'n gysylltiedig â pholisi, ystadegau gwladol a data gweinyddol;
- gwerthusiadau o wasanaethau a rhaglenni sy'n darparu mynediad i'r Warant neu'n darparu cynnig cymorth y Warant (fel Cymru'n Gweithio, CfW+ a TSC+);
- ymchwil sylfaenol (sy'n cynnwys cyfweiliadau, grwpiau ffocws a gweithdai) gyda thros 75 o randdeiliaid sy'n ymwneud â datblygu a/neu weithredu'r Warant a/neu'r Fframwaith; ac
- ymchwil sylfaenol (cyfweiliadau naratif manwl) gydag 81 o bobl ifanc oed rhwng 16 a 24 sy'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru ac sydd ag amrywiaeth o wahanol nodweddion cydraddoldeb, er mwyn archwilio eu profiadau o bontio.

1.4 Roedd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn gywir ar adeg ei ddrafftio.

2. Cynllun y Fframwaith a'r Warant

- 2.1 Bu pryderon hirsefydlog am bobl ifanc sy'n cael trafferth pontio o addysg uwchradd i Gyflogaeth, (ôl-16) Addysg neu Hyfforddiant (EET). Mewn ymateb, cyflwynwyd y Fframwaith yn 2013 i leihau nifer y bobl ifanc a oedd yn NEET. Cafodd y pryderon hyn eu cynyddu'n gyflym gan bandemig COVID-19, ac roedd ymatebion polisi fel cyfyngiadau symud, yn sbarduno argyfwng yn y farchnad lafur a oedd yn taro pobl ifanc yn arbennig o galed (y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2021). Yn 2021, datblygwyd y Warant yn gyflym o ystyried ofnau yr oedd sail gadarn iddynt y gallai cenhedlaeth o bobl ifanc fod wedi cael eu colli oherwydd effeithiau creithio hirdymor diweithdra ymhlith pobl ifanc.
- 2.2 Mae'r Fframwaith a'r Warant yn ceisio sicrhau bod y bobl ifanc hynny y mae angen cymorth arnynt i gynnal cyfranogiad mewn EET, ac i wneud cynnydd ynddynt a phontio drwyddynt, yn gallu cael mynediad at gymorth mewn ffordd amserol. Mae'r ddau yn defnyddio dull cydweithredol ar draws system sy'n anelu at chwalu rhwystrau rhwng cymorth EET a darpariaeth addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cynllunio a darparu cymorth EET, ar y naill law, a darpariaeth addysg a hyfforddiant, ar y llaw arall, yn aml yn cael eu nodweddu fel system 'seilo'. At hynny, mae gwahanol raglenni, darparwyr neu leoliadau sy'n darparu cymorth neu addysg a hyfforddiant weithiau, i bob pwrpas, yn gweithredu mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Roedd cytundeb eang ymhlith cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant bod angen gweithredu a bod dull ar draws system yn angenrheidiol. Nod y Fframwaith yw gwneud hyn ar gyfer y rhai 11 i 18 oed drwy gydweithio ar lefel awdurdod lleol (ALI), ac mae'r Warant yn ceisio gwneud hyn ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed drwy gydweithio yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- 2.3 Fodd bynnag, er eu bod yn rhannu nodau tebyg, mae cynllun y Warant a'r Fframwaith yn wahanol iawn. Rydym yn nodweddu'r Fframwaith fel model 'optio allan' (lle mae'n rhaid i bobl ifanc wrthod y cynnig cymorth yn weithredol¹), ac mae'r Warant yn fodel 'optio i mewn' (lle mae'n rhaid i bobl ifanc ddewis manteisio ar gymorth yn weithredol²). Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r anawsterau wrth olrhain pobl ifanc 18 oed a throsodd (a ddangosir gan fersiwn gyntaf y Fframwaith³) a'r disgwyliad bod pobl ifanc 18 oed a throsodd, fel oedolion, yn arfer mwy o alluogedd⁴. Mae'r model optio i mewn yn gweithio'n dda i'r bobl ifanc hynny sy'n ceisio parhau mewn EET neu ailymgysylltu ag EET – ac mae rhwng 85 a 90% o'r holl

¹ Mae'r model hwn yn seiliedig ar olrhain unigolion sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio, er mwyn targedu ymdrechion allgymorth gweithredol. Pan, er enghraifft, mae gweithiwr ieuenctid yn gwneud cyswllt, gall pobl ifanc ddewis peidio â manteisio ar y cynnig cymorth – ond mewn gwirionedd maent yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt wneud y dewis hwn.

² Mewn cyferbyniad â model y Fframwaith, yn y Warant, yr opsiwn diodyn yn gyffredinol yw nad yw person ifanc yn cael cymorth gan wasanaethau, oni bai ei fod yn mynd ati i ddewis chwilio amdano a manteisio arno.

³ Yn y cyfnod 2021 i 2022 roedd y Fframwaith yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 25 oed. Fodd bynnag, yn 2022, ailganolbwyntiwyd y Fframwaith ar bobl ifanc 11 i 18 oed, yn rhannol oherwydd yr anawsterau wrth olrhain pobl ifanc 18 oed a throsodd.

⁴ Mae galluedd wedi'i ddiffinio mewn ffyrdd gwahanol ac at ddibenion yr astudiaeth hon rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio capasiti pobl ifanc i weithredu, gwneud dewisiadau a llunio'r byd o'u hamgylch. Yma, rydym yn golygu nid yn unig capasiti pobl ifanc i weithredu, ond hefyd y disgwyliad eu bod yn arfer y galluoegrwydd hwnnw ac yn gwneud dewisiadau.

bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn pontio'n llwyddiannus. Mae'n bwysig nad yw'r llwyddiant hwn yn cael ei gymryd yn ganiataol. Serch hynny, mae'r model optio i mewn yn llai addas i'r lleiafrif o bobl ifanc sy'n economaidd anweithgar ac nad ydynt yn mynd ati'n weithredol i ailymgysylltu ag EET (Llywodraeth Cymru, 2024a, 2024b).

3. Gweithredu'r Fframwaith a'r Warant

- 3.1 Mae'r Warant a'r Fframwaith yn fodelau cydweithredol o newid system.⁵ Felly, mae gweithredu pob un yn dibynnu ar benderfyniadau rhanddeiliaid lluosog sy'n gweithredu ar wahanol lefelau mewn gwahanol sectorau. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod y Warant a'r Fframwaith, fel y maent yn cael eu profi gan bobl ifanc (yn wahanol i'w cynllun ar bapur), wedi 'dod i'r amlwg' o benderfyniadau sawl rhanddeiliad gwahanol mewn dau 'rwydwaith polisi' sy'n gorgyffwrdd sy'n canolbwyntio ar y Warant a'r Fframwaith.⁶
- 3.2 Mae cyfweiliadau â'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a/neu gyflwyno'r Fframwaith a'r Warant, a gwerthusiadau o'r gwahanol elfennau o bob un, yn awgrymu bod gweithredu wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Serch hynny, fel gydag unrhyw bolisi neu raglen, cafodd meysydd i'w gwella eu nodi hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chanllawiau mwy cynhwysfawr a diduedd i bob person ifanc sy'n gwneud dewisiadau yn 16 oed, gwell cyfathrebu gwybodaeth am lwybrau dysgwyr ôl-16 i bobl ifanc, cryfhau ymgysylltu â chyflogwyr, a datblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Warant.

4. Effeithiolrwydd y Fframwaith a'r Warant

- 4.1 Mae'r Warant yn gweithio i nifer fawr iawn o bobl ifanc – ac mae dros 50,000 o bobl ifanc bellach wedi manteisio arni, gan eu helpu i lywio cyfnodau pontio sy'n gynyddol heriol. Mae'r amrywiaeth o gymorth a ddarperir drwy'r Fframwaith a chan wasanaethau fel Cymru'n Gweithio a'r Gwasanaeth Di-waith, a'r rhaglenni fel TSC+ a CfW+, sy'n ffurfio'r Warant, yn effeithiol, ac mae tua 40 i 60% o bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan raglenni sy'n ffurfio'r Warant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn yn cynorthwyo pobl ifanc i bontio, er enghraifft drwy gynnig:
- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a chyflogadwyedd, sy'n golygu bod pobl ifanc yn ddeall a llywio lwybrau ôl-16 yn well ac yn haws (cynyddu eu galluoogrwydd i wneud hynny);
 - anogaeth, adborth cadarnhaol, a'r wybodaeth bod rhywun, fel Gweithiwr Arweiniol y Fframwaith, 'yn gefn i chi', sy'n gallu helpu i gynyddu cymhelliad pobl ifanc; a

⁵ Mae 'system' yn ymgorffori'r syniad o set o elfennau gwahanol wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio cyfanrwydd, ac mae'r priodweddau wedi'u creu gan weithrediad y system gyfan, yn hytrach na'r rhannau unigol yn unig (Checkland, 1981, t. 3). Mae 'dod i'r amlwg' yn disgrifio sut mae canlyniad, fel y Warant fel y mae'n cael ei phrofi gan bobl ifanc, yn gynnrych y rhyngweithiadau rhwng y gwahanol elfennau sy'n ffurfio'r system (ibid.).

⁶ Mae rhwydwaith polisi yn grŵp o weithredwyr sy'n rhyngweithio ac yn cydweithio i ddylanwadu ar ddatblygu a/neu weithredu polisiâu cyhoeddus ar fater penodol (Sutton, 1999). Mae gan y rhwydweithiau polisi hyn nodweddion system, ac o ystyried y diffyg canllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru, gellir dweud bod y Warant yn arbennig, fel y cafodd ei phrofi gan bobl ifanc, wedi 'dod i'r amlwg' o'r system hon.

- chymorth ariannol neu ymarferol gyda theithio i'r coleg neu'r gwaith neu gyda gofal plant, sy'n gallu helpu i gynyddu mynediad pobl ifanc at gyfleoedd EET.

Deall ymddygiad pobl ifanc mewn cyd-destun

Mae'r effaith y gall mynediad at gymorth ei chael yn dangos pwysigrwydd deall galluoedd, cyfleoedd a chymhellion pobl ifanc, ac felly eu hymddygiad, mewn cyd-destun. Er enghraifft, gall Gweithiwr Arweiniol effeithiol yn y Fframwaith neu fentor CfW+ effeithiol wella galluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd a'u cymhelliant, ac felly annog a galluogi newid ymddygiadol. Mae cyd-destunau hefyd yn strwythuro mynediad at gyfleoedd. Er enghraifft, gall mynediad at gyfleoedd fod yn fwy anodd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, a gall agweddau negyddol cyflogwyr analluogi pobl ifanc. Gall normau cymdeithasol, gwerthoedd ac arferion (sydd i gyd yn rhan o'r cyd-destun) hefyd lunio cymhelliant pobl ifanc.

Mae'n hanfodol bod gwasanaethau cymorth EET yn gweithio gyda phobl ifanc wrth iddynt gyflwyno i wasanaethau – gyda setiau penodol o alluoedd, cymhellion a mynediad at gyfleoedd, sy'n galluogi ac yn cyfyngu ar eu hymddygiad. Nid yw hyn yn golygu y dylid anwybyddu'r cyd-destunau, gan gynnwys y rhai sy'n ffurfio bywgraffiadau pobl ifanc. Gallant helpu gwasanaethau i ddeall yn well pam mae pobl ifanc yn cyflwyno gyda galluoedd, cymhellion ac ymddygiad penodol. Maent hefyd yn tynnu sylw at yr angen posibl am ymyriadau 'i fyny'r afon', yn gynharach ym mywydau pobl ifanc neu am ymyriadau i newid y cyd-destun, fel gweithio gyda chyflogwyr. Serch hynny, mae ffocws gormodol ar ffactorau cyd-destunol yn peryglu cyfyngu ar sut y gall gwasanaethau EET gynorthwyo pobl ifanc heddiw, drwy annog a galluogi pobl ifanc i newid eu hymddygiad, drwy ganolbwyntio ar eu galluoedd, eu cymhellion a'u mynediad at gyfleoedd.

- 4.2 Mae'r model COM-B (a amlinellir uchod) yn cynnig achos damcaniaethol cryf dros effeithiolrwydd tebygol modelau'r Warant a'r Fframwaith. Mae hyn yn cael ei ategu gan werthusiadau o'r gwasanaethau a'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant ac adolygiadau o'r Fframwaith. Serch hynny, dylid nodi hefyd bod y darnio o ran casglu data a'r diffyg cymhariaeth uniongyrchol rhwng data gwasanaethau neu raglenni ac ystadegau cenedlaethol ar, er enghraifft, anabledd yn ei gwneud yn heriol gwerthuso pa mor effeithiol y bu'r Warant wrth gynorthwyo gwahanol grwpiau o bobl ifanc. Mae'n debygol y bydd mynd i'r afael â hyn yn gofyn am newidiadau i'r ffordd y mae ystadegau gwladol, fel yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (ABB),⁷ a/neu ddata gwybodaeth reoli gwasanaethau neu raglenni yn cael eu casglu.
- 4.3 At hynny, lle y maent ar gael, mae gwerthusiadau effaith o'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant fel CfW a CfW+ (Llywodraeth Cymru 2024c), yn awgrymu bod graddau'r ychwanegedd (i ba raddau na fyddai canlyniadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r Warant wedi digwydd yn absenoldeb y Warant) yn aml yn isel. At hynny, mae effeithiau cadarnhaol y Warant sy'n gysylltiedig â gwella mynediad at raglenni neu wasanaethau cymorth a/neu eu cryfhau dim ond yn cael eu profi gan y bobl ifanc

⁷ Mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn arolwg mawr parhaus o aelwydydd ledled y DU sy'n cynnwys cwestiynau ar addysg a chyflogaeth, a hefyd ethnigrwydd, crefydd ac iechyd.

hynny sy'n ymgysylltu ag un (neu fwy) o'r rhaglenni neu wasanaethau cymorth sy'n ffurfio'r Warant. Mae'r data'n awgrymu nad yw llawer o bobl ifanc yn ymgysylltu â rhaglenni neu wasanaethau cymorth ac mae ymchwil yn awgrymu mai'r rhai sydd yn y sefyllfa fwyaf difreintiedig mewn perthynas ag addysg a chyflogaeth sydd:

yn gyffredinol, y rhai anoddaf i'w hymgysylltu a'u cynorthwyo a'r lleiaf tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol os ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET (Llywodraeth Cymru, 2024b, tt. 93-94).

- 4.4. Er nad yw'n bosibl cyfrifo'n fanwl faint o bobl ifanc nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth gan y Warant, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu ei fod yn lleiafrif sylweddol o bobl ifanc. At hynny, mae rhai grwpiau, gan gynnwys pobl ifanc anabl, ac i raddau llai, menywod, heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gwasanaethau cymorth.

5. Pontio pobl ifanc yn 16 ac yn 18 oed yng Nghymru: 'Afon ddiog' addysg a 'dyfroedd gwyllt' ôl-addysg

- 5.1. Disgrifiodd yr 81 o bobl ifanc a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth amrywiaeth eang o ffactorau yr oeddent yn teimlo eu bod yn eu helpu neu'n eu rhwystro, wrth iddynt wneud pontio i mewn ac allan o EET. Er enghraifft, disgrifiodd pobl ifanc eu:

- profiadau ysgol a oedd yn aml yn anodd, ac, mewn nifer fach o achosion, mewn addysg ddewisol yn y cartref. Roedd profiadau anodd o addysg yn aml yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel bwllo neu gyfnodau o amser mewn gofal, yr hyn y teimlai pobl ifanc oedd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) heb eu diwallu, a/neu broblemau iechyd, gan gynnwys problemau iechyd meddwl. Codwyd yn aml hefyd y tarfu ar eu haddysg a achoswyd gan y pandemig ac ymatebion polisi fel y cyfyngiadau symud.
- amhariadau, niwroamrywiaeth a/neu broblemau iechyd meddwl, a ffyrdd y gallai'r rhain arwain at wahaniaethu wrth wneud cais am swydd, a sut y gallai methiannau cymdeithasol i wneud addasiadau rhesymol eu hanalluogi.
- rhwystrau i geisio cymorth neu fanteisio ar gymorth, gan gynnwys peidio â gwybod pa gymorth sydd ar gael, peidio â chael yr hyder i ofyn am gymorth gan eraill, diffyg ymddiriedaeth neu hyder mewn gwasanaethau, a/neu'r stigma a all fod yn gysylltiedig â manteisio ar rai mathau o gymorth (yn fwyaf arbennig yr hyn a gynigir gan y Ganolfan Byd Gwaith a gwasanaethau iechyd meddwl).
- teimlo ar goll neu'n ansicr am eu camau nesaf, ac i'r rhai a gafodd eu cefnogi, gwerth oedolion y gellir ymddiried ynddynt a allai helpu i'w harwain a'u cefnogi.

- 5.2. Er mwyn disgrifio pontio pobl ifanc yn 16 ac 18 oed, rydym yn defnyddio'r trosiad o bobl ifanc ym mlynnyddoedd 10 ac 11 yn yr ysgol yn drifftio i lawr 'afon ddiog'. Ar ddiwedd blwyddyn 11 (tua 16 oed), mae'r rhan fwyaf (tua 90%) yn cael eu harwain gan 'achubwyr bywyd', fel athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd, i lawr un o ddwy sianel sy'n arwain at chweched dosbarth ysgolion neu golegau.⁸ Ond efallai y bydd


⁸ Mae'r gweddill naill ai'n symud i gyflogaeth neu'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar (ac fe'u disgrifir fel 'NEET'). Darperir rhagor o fanylion am ganran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yn y [Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#), sy'n cael ei ystyried yn ffynhonnell ddiffiniol o ddata am bobl ifanc sy'n NEET.

rhai pobl ifanc yn mynd i drafferthion, neu'n darganfod eu bod yn y sianel anghywir, ac yn gorfod nofio yn erbyn y cerrynt. Mae'r Fframwaith (gyda'i ffocws ar olrhain cynnydd pobl ifanc ac adnabod y rhai sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio) yn golygu bod achubwyr bywyd, fel Gweithwyr Arweiniol, gweithwyr ieuencid, a chynghorwyr Gyrfa Cymru, yn edrych yn mynd ati i chwilio am y bobl ifanc hynny sy'n cael trafferthion yn blynyddoedd 12 a 13.⁹

- 5.3. Fodd bynnag, tua 18 oed, ar ddiwedd blwyddyn 13, mae'r bobl ifanc hyn yn dod ar draws dyfroedd cyflymach a mwy o sianeli y mae'n rhaid iddynt ddewis rhyngddynt (fel pontio i'r brifysgol, dysgu seiliedig ar waith, cyflogaeth a/neu hunangyflogaeth), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer mwy o alluogedd. Wrth i'r cerrynt yn ein hafon drosiadol fynd yn gryfach ac yn gyflymach a rhannu i'r gwahanol sianeli hyn, mae angen i bobl ifanc allu nofio yn erbyn y cerrynt a chael y cyfle a'r cymhellant i ddewis rhwng gwahanol sianeli.
- 5.4. Mae'r cam hwn hefyd yn fwy anodd i bobl ifanc, oherwydd nid yw llawer o'r achubwyr bywyd bellach yn chwilio am y rhai sydd wedi cael anawsterau (gan fod olrhain pobl ifanc o dan y Fframwaith yn gyffredinol yn dod i ben yn 18 oed, oni bai bod awdurdodau lleol eisoes yn gweithio gyda'r bobl ifanc hynny, er enghraifft drwy waith ieuencid). Yn hytrach, mae'r achubwyr bywyd, fel gwasanaethau cymorth fel Cymru'n Gweithio, a Hyfforddwyr Gwaith y Ganolfan Byd Gwaith yn dibynnu ar bobl ifanc (sydd bellach yn oedolion) yn cysylltu â nhw am help. Mae yna lawer o bobl ifanc nad ydynt yn gwneud hyn, am amrywiaeth o wahanol resymau, gan gynnwys stigma canfyddedig a'r amodoldeb sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- 5.5. Mae cyfanswm y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n NEET, ac yn enwedig menywod ifanc rhwng 19 a 24 oed sy'n NEET, yng Nghymru wedi gostwng ers y Dirwasgiad Mawr (2008 i 2010). Fodd bynnag, fel y mae Siartiau 5.1 a 5.2 yn ei ddangos, roedd cyfran fwy o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed a oedd yn NEET yn economaidd anweithredol yn hytrach na di-waith ac yn chwilio am waith yn weithredol yn 2023 o'i gymharu â 2008. Mae'r newid hwn wedi bod yn arbennig o amlwg i ddynion ifanc. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu gostyngiad mawr yng nghyfran y menywod ifanc sy'n economaidd anweithredol oherwydd cyfrifoldebau gofalu, ochr yn ochr â chynnydd yng nghyfran y dynion ifanc a'r menywod ifanc sy'n economaidd anweithredol oherwydd iechyd gwael (Murphy, 2023). Mae'r cynnydd hwn mewn anweithgarwch economaidd yn bryder, oherwydd (ymysg canlyniadau eraill) mae'n bosibl y mae'n golygu bod y bobl ifanc hyn yn llai tebygol o geisio am gymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Warrant i ddod o hyd i waith, o'i gymharu â phobl ifanc sy'n ddi-waith (ac felly'n chwilio am waith yn weithredol).


⁹ Mae'r trosiad o achubwyr bywyd yn dangos natur berthynol galluoedd, drwy ddangos sut y gellir cefnogi pobl ifanc, a allai gael trafferth nofio yn erbyn y cerrynt ar eu pennau eu hunain (oherwydd galluoedd cyfyngedig), fel y gallant lywio'r dyfroedd gwyllt yn llwyddiannus a dewis sianel sy'n eu galluogi i bontio'n llwyddiannus i gam nesaf eu taith EET.

Siart 5.1. Canran amcangyfrifedig dynion 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru: Datganiad Ystadegol Cyntaf Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#). Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

Siart 5.2. Canran amcangyfrifedig menywod 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru: Datganiad Ystadegol Cyntaf Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#). Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

6. Casgliadau a goblygiadau polisi

- 6.1. Cyfrannodd y Warant at newidiadau sylweddol yn natur a graddau cymorth EET i bobl ifanc. Helpodd i chwalu'r seilos polisi a oedd wedi tameidio'r system o wasanaethau a rhaglenni cymorth EET ôl-16.
- 6.2. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn yn y system gymorth EET ôl-16, mae nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n manteisio ar gymorth gan raglenni fel TSC+ wedi bod yn gryf iawn ac efallai fod hyn wedi cyfrannu at y gostyngiadau yng nghyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET (Llywodraeth Cymru 2025e). At hynny, nid oedd y cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig a ragwelwyd yn 2020 i 2021 wedi digwydd – roedd llawer o gyfweleion ar gyfer y gwerthusiad hwn, o Lywodraeth Cymru yn benodol, yn priodoli hyn i lwyddiant y Warant a'r Fframwaith.
- 6.3. Fodd bynnag, mae'n llai clir a yw'r newidiadau hyn yn y cynnig cymorth hefyd wedi cyfrannu at newid mor fawr ag y dymunir o ran ymddygiad pobl ifanc 19 i 24 oed. O'i gymharu â'r rhai 16 i 18 oed, mae cyfran uwch o bobl ifanc 19 i 24 oed yng Nghymru yn NEET. At hynny, o'i gymharu â phobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET, mae cyfran uwch o bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET yn economaidd anweithgar, ac nid yw cyfran uwch yn y grŵp oedran hyn hwn yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET a gynigir fel rhan o'r Warant.
- 6.4. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn dangos bod effaith newidiadau yn y cynnig cymorth ar ymddygiad pobl ifanc wedi bod yn anghyson. Mae cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth hon ac astudiaethau eraill (a gynhwysir yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Llywodraeth Cymru 2024a, 2024b) yn nodi bylchau a gwendidau mewn cymorth EET i bobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, pobl ifanc niwrowahanol, a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Mae'r data'n dangos hefyd, er bod ganddynt gynrychiolaeth gryfach mewn rhaglenni fel TSC+, yn gyffredinol, mae pobl ifanc anabl yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn rhaglenni cymorth EET ac mewn EET. Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o fenywod ifanc hefyd mewn rhai gwasanaethau a rhaglenni cymorth EET. At hynny, mae gormod o bobl ifanc sydd mewn EET nad ydynt yn cyflawni eu potensial oherwydd, er enghraifft, eu bod yn cyrraedd llwybrau addysg neu hyfforddiant is-optimadd a/neu wedi'u dal yn yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel gwaith annheg, sydd â chyflog gwael, yn ansicr ac yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i wneud cynnydd.
- 6.5. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, a'r canfyddiadau o gyfweiliadau â phobl ifanc a amlinellwyd uchod yn dangos, mae effaith y cyd-destun hefyd yn amlygu pwysigrwydd deall natur berthynol galluedd pobl ifanc a meddwl am hyn. Mae galluedd pobl ifanc i lywio cyfnodau pontio yn llwyddiannus, yn dibynnu nid yn unig ar eu priodoleddau eu hunain, ond hefyd ar ffactorau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth, y cymorth a'r arweiniad y gallant gael mynediad atynt, gan y rhai y maent yn eu hystyried yn oedolion y gellir ymddiried ynddynt fel eu rhieni, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr ieuencid a/neu gan raglenni cymorth EET ôl-16 fel TSC+, CfW+ a'r Gwasanaeth Di-waith.
- 6.6. Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn y gwerthusiad hwn a'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Llywodraeth Cymru 2024a, 2024b) felly yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen i gamau gweithredu i gynorthwyo pobl ifanc i ailymgysylltu ag EET fod yn

seiliedig o leiaf yn rhannol ar gymorth gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt a all helpu i estyn allan at bobl ifanc. Dylai hyn anelu at ategu gweithredu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ysgogi pobl ifanc, fel yr ymgyrch Bydd Bositif ac amodoldeb lles. Mae'r perthnasoedd rhwng pobl ifanc ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn cymryd amser i'w datblygu a'u meithrin, sy'n amlygu pwysigrwydd cyllid hirdymor ar gyfer gwasanaethau. At hynny, gan y gall amrywiaeth o bobl chwarae rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo, mae'r dull hwn hefyd yn gofyn am berthynas o ymddiriedaeth rhwng oedolion y gellir ymddiried ynddynt a gwasanaethau cymorth EET, fel eu bod yn hyderus yn annog pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET.

6.7. Ar y cyfan, er bod y rhaglenni presennol sy'n ffurfio'r Warant yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth (wedi'u llywio gan 'beth sy'n gweithio'), mae'r gwerthusiad yn nodi, fel y casglodd yr [Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth ar Syniadau ac Ymddygiad Pobl Ifanc](#), 'mae'n annhebygol y bydd gwneud rhagor o'r un peth yn ddigonol' (Llywodraeth Cymru 2024b, t. 99).¹⁰ Mae hyn yn bwysig oherwydd mewn sawl ffordd roedd y Warant yn parhau ac yn ehangu cymorth presennol, yn hytrach na newid radical yn natur y cymorth. Mae strategaethau newydd i gyrraedd ac ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny, yn enwedig y rhai 19 i 24 oed, sydd wedi ymddieithrio'n gynyddol o EET ac o wasanaethau cymorth, yn debygol o fod yn hanfodol er mwyn cyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol, sef bod 90% o bobl ifanc mewn EET erbyn 2050 a bod cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cynyddu. Fodd bynnag, fel y noda'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth:

- mae'r modelau presennol yn gweithio o leiaf yn weddol dda, ac 'mae'r hyn sy'n gweithio yn cael ei ddeall yn gymharol dda'; a
- nid oes 'bwled arian' (neu ateb i bob problem) ac mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer opsiynau mwy radical yn gyfyngedig (Llywodraeth Cymru 2024b, t. 92).

6.8. Os yw opsiynau mwy radical yn cael eu ffafrio, mae'r sylfaen dystiolaeth gyfyngedig yn awgrymu bod angen mabwysiadu dull mwy arbrofol, gyda phrofi ac addasu amser real, a ffocws cryf ar alluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd, ac ymatebion ymddygiadol i fentrau, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod ateb wedi'i ffurfio'n llawn yn barod i'w weithredu (y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol a Nesta, 2016, t. 19).

6.9. Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi ei bod yn debygol y bydd cyfyngiadau ar y graddau y gall cynnig y Warant o gymorth EET ôl-16 gynyddu galluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd. Felly, os yw cerrig milltir 2050 i'w cyflawni, mae'n debygol bod angen gweithredu (gan gynnwys parhau â'r gweithredu presennol) hefyd:

- mewn addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16 er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hysbrydoli a'u cynorthwyo i gyflawni mwy a gwneud y mwyaf o'u galluoedd. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys nodi ADY a mynd i'r afael â hynny. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu i gryfhau galluoedd academiaidd pobl ifanc

¹⁰ Er bod yr adolygiad hefyd yn nodi 'nad dim ond yr hyn sy'n cael ei wneud sy'n gwneud gwahaniaeth, ond pa mor dda mae'n cael ei wneud' (Llywodraeth Cymru, 2024b, t. 100), sy'n golygu y gallai fod lle i wella modelau presennol hefyd.

fel darllen, ysgrifennu a mathemateg, a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, fel hunaneffeithiolrwydd a'r gallu i reoli emosiynau;

- mewn addysg cyn-16 ac addysg a hyfforddiant ôl-16, gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a llesiant ar draws sectorau, gyda phartneriaid perthnasol gan gynnwys Medr,¹¹ y gwasanaeth ieuencid a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae [Fframwaith NYTH](#) a'r [Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025 i 2035](#) yn awgrymu dull system gyfan o atal, cymorth cynnar ac ymyrraeth, er mwyn helpu i wella iechyd meddwl pobl ifanc (ac felly eu galluoedd);
- mewn addysg cyn-16 ac addysg a hyfforddiant ôl-16 i wella mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am lwybrau (o ystyried y gwendidau a nodwyd gan Estyn, 2022a, 2022b), drwy, er enghraifft, cynnig Gyrfa Cymru o gyfweiliad arweiniad i bawb ym mlwyddyn 11 a'r Hawl i ddysgu 14 i 16, er mwyn helpu i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc;
- gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, un o'r darparwyr pwysicaf o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc, er mwyn sicrhau dull cydlynol ac ategol ar gyflogaeth a sgiliau (Wilson, 2021), yn enwedig yn dilyn y diwygiadau arfaethedig i gynnig ieuencid yr Adran Gwaith a Phensiynau, a amlinellir yn y [Papur Gwyn Get Britain Working](#); a
- gyda chyflogwyr, a hefyd lleoliadau addysg a hyfforddiant, i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ac ystyried addasiadau pan fydd anawsterau person ifanc yn methu'r diffiniad o 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cyfyngu'n sylweddol ar allu person i wneud gweithgareddau bob dydd'¹² neu, er enghraifft, sy'n ymwneud ag anawsterau gyda thrafnidiaeth neu ofal plant.

6.10. Er bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu bod pob un o'r rhain yn bwysig, mae gwerthusiad i ganfod i ba raddau y mae camau digonol yn cael eu cymryd ym mhob maes ymhell y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn o'r Warant a'r Fframwaith. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw y bydd angen gweithredu ar draws y llywodraeth ar gyfer pob un, gan ymestyn ymhellach y gwaith llywodraeth traws-adrannol a ddatblygodd y Warant a hefyd gyda Medr ac yn rhanbarthol ac yn lleol drwy waith awdurdodau lleol (ALI) a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol¹³. Mae hyn yn debygol o fod yn heriol, o ystyried cymhlethdod y system cymorth ôl-16 ac EET yng Nghymru ac mae'n debygol y bydd gwersi pwysig o'r profiad o ddatblygu a gweithredu'r Warant fel model o weithio rhyng-adrannol uchelgeisiol sy'n anelu at lunio system gymhleth.

¹¹ Mae Medr hefyd yn cael ei adnabod fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Dechreuodd Medr reoleiddio'r sector ôl-16 yng Nghymru ym mis Awst 2024. Mae gan y sefydliad ddyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol. Er enghraifft, un o flaenoriaethau strategol y sefydliad yw 'Rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system drwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u llesiant' (Medr, 2025, t. 8).

¹² Dyma'r [Diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#).

¹³ Mae partneriaethau sgiliau rhanbarthol yn darparu ffocws ar gyfer cydlynio a chynllunio, ac mae awdurdodau lleol yn darparu'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith.

Cyfeiriadau

Y Gynghair Tystiolaeth Ddefnyddiol a Nesta (2016), [Using Research Evidence: a practical guide. gwefan Nesta](#)

Checkland, P. (1981), Systems thinking, systems practice, Chicester a New York: J. Wiley edition.

Estyn (2022a), [Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru. gwefan Estyn.](#)

Estyn (2022b), [Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, gwefan Estyn.](#)

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2021), [Facing the future - employment prospects for young people after Coronavirus, gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith.](#)

Medr (2025), [Cynllun Strategol 2025-2030.](#)

Michie, S., van Stralen, M.M., a West, R. (2011), A behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change methods, Implementation Science, 6: 42.

Murphy, L (2023), [Left Behind, Resolution Foundation website.](#)

Sutton, R. (1999), [The Policy Process: An Overview. gwefan y Sefydliad Datblygu Tramor](#)

Llywodraeth Cymru (2022), [Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad effaith, gwefan Llywodraeth Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2024a), [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: syniadau ac ymddygiad pobl ifanc](#)

Llywodraeth Cymru (2024b), [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: Beth sy'n gweithio.](#)

Llywodraeth Cymru (2024c), [Gwerthusiad proses, effaith ac economaidd Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mw: gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025a), [Gwarant i Bobl Ifanc\): asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025b), [Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: Adroddiad Terfynol, Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Wilson, T. (2021), 'Rapid review of employment policy and context: An independent assessment to inform the future refresh of the Wales Employability Strategy', papur heb ei gyhoeddi.

Awduron yr Adroddiad: Dr Duncan Holtom, gyda Rhodri Bowen ac Emma Preece

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D. Gyda Bowen, R. a Preece, E. (2025). Y Warant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 93/2025.
Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/y-warrant-i-bobl-ifanc-gwerthusiad-proses>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Lydia Lewis
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-441-4